Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y model cyllido ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd

## Cyflwyniad

1. Mae Medr wedi ymrwymo i sicrhau bod y Rhaglen Brentisiaethau yn parhau i fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau ac anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach wrth iddynt esblygu, yn rhan o system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig.

2. Cynhaliom ymgynghoriad 6 wythnos ym mis Mai – Mehefin 2026, yn ceisio barn gan randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysg drydyddol, cynrychiolwyr diwydiant, cyflogwyr, dysgwyr ac awdurdodau lleol i helpu i lywio'r model cyllido ar gyfer y rhaglen newydd. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig gwybodaeth am fodel cyllido cyfredol y rhaglen brentisiaethau, sail resymegol dros newid a chynigion ar gyfer model cyllido newydd y rhaglen brentisiaethau.

3. Cafodd Medr 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd 6 ohonynt wedi'u llenwi'n rhannol ac nid oedd 5 o'r ymatebion yn ateb y cwestiynau'n benodol. Cawsom 9 o ymatebion gan ddeiliaid contractau prentisiaeth cyfredol, 12 gan randdeiliaid eraill, 5 gan isgontractwyr darparu prentisiaethau, 3 gan brifysgolion, 3 gan gyflogwyr a 2 gan unigolion.

4. Ar ben hynny, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar-lein ar 3 Mehefin 2026. Cymerodd dros 30 o gyfranogwyr ran yn y digwyddiad ymgynghori hwn.

5. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad a amlinellir isod wedi llywio datblygiad y model cyllido newydd, fel y nodir yn y ddogfen gryno.

## <u>Cwestiwn 1:</u> A fydd y model hwn yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol o gymharu â'r model presennol?

6. Roedd 73% o'r ymatebwyr yn cefnogi egwyddorion y model cyllido newydd, gan gynnwys yr hyblygrwydd yr oedd yn ei alluogi.

7. Nododd 67% o'r ymatebwyr ganlyniadau anfwriadol y model arfaethedig o gymharu â'r model cyllido prentisiaethau presennol. Ni atebodd tri ymatebydd y cwestiwn hwn. Y prif bryder gan ymatebwyr (59%) oedd bod y taliad deilliannau yn rhy fawr ac y byddai'n effeithio ar gyflwyno. Pryderon eraill a godwyd oedd yr angen am fwy o fanylion, a bod y model newydd yn gymhleth ac yn ychwanegu baich gweinyddol.

8. Cefnogwyd y cynnig cyllido newydd yn gyffredinol, mewn egwyddor; fodd bynnag, roedd angen rhagor o wybodaeth ar ddarparwyr, yn benodol, am gyflwyno'r model, gan gynnwys sut byddai prosesau dilysu yn gweithio, a fyddai gweithgareddau'n awtomataidd neu'n cael eu gwneud â llaw, natur gofynion data, a sut yr eir i'r afael â gwallau neu anghydfodau.

9. Ystyriwyd y gallai'r model gynyddu'r llwyth gwaith ar ddechrau'r rhaglen, oherwydd bod angen asesiadau dysgwyr manylach, gwiriadau dilysu a phrosesu ymsefydlu.

Mae hyn yn debygol o gynyddu costau gweinyddol ymlaen llaw a mynnu mwy o amser staff a hyfforddiant.

10. Mynegodd ymatebwyr bryder hefyd ynghylch goblygiadau gweithredol ac ariannol ehangach y cynnig, gan gynnwys mwy o ofynion cydymffurfio, trefniadau mwy cymhleth ar gyfer rheoli grantiau a chyllid, mwy o ddibyniaeth ar systemau digidol effeithiol a Llyfrgell Fframweithiau gadarn.

11. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch parodrwydd systemau, integreiddio rhwng systemau darparwyr a phlatfformau cenedlaethol. Pwysleisiodd darparwyr y bydd gweithredu'n llwyddiannus yn dibynnu ar ganllawiau gweithredol clir, systemau cwbl integredig ac awtomataidd, a Llyfrgell Fframweithiau ddibynadwy, ynghyd â chefnogaeth ddigonol ar gyfer y cyfnod pontio. Roeddent o'r farn, heb yr elfennau hyn, bod risg sylweddol y bydd newidiadau arfaethedig yn cynyddu'r baich gweinyddol, costau ac oedi, gan leihau hyblygrwydd ac effeithlonrwydd yn hytrach na chyflawni'r manteision bwriadedig.

**<u>Cwestiwn 2:</u> Yn y model cyllido newydd, rydym yn bwriadu dilysu data cymwysterau o'r wybodaeth a fydd wedi'i chynnwys yn y llyfrgell fframweithiau newydd ar ddechrau'r rhaglen yn hytrach nag yn ystod y dysgu. A fydd hyn yn arwain at unrhyw effeithiau ar ddarparwyr dysgu o ran goblygiadau amser a chost?**

12. Roedd 50% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai goblygiadau o ran amser a chost wrth ddilysu data cymwysterau o'r wybodaeth a fydd wedi'i chynnwys yn y llyfrgell fframweithiau newydd ar ddechrau'r rhaglen, yn hytrach nag yn ystod y dysgu, gyda 18% o'r rhain yn nodi na allent ymateb yn llawn heb ragor o eglurder a manylion. Nid oedd 18% arall o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu gwneud sylwadau nac ateb, ac ni atebodd ychydig yn llai na thraean o'r ymatebwyr y cwestiwn.

13. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai goblygiadau o ran amser a chostau, ond roedd maint a natur yr effaith yn ansicr iawn oherwydd diffyg manylion. Tynnodd adborth sylw at y tebygolrwydd y byddai'r llwyth gwaith yn symud i ddechrau'r rhaglen, ochr yn ochr â risgiau o fwy o faich gweinyddol, cymhlethdod y system ac oedi wrth ymsefydlu.

**<u>Cwestiwn 3:</u> Rydym yn cynnig cynyddu'r taliad Asesu a Sefydlu o £285 i £400. A yw taliad o £400 yn adlewyrchiad teg o ofynion asesu a sefydlu ychwanegol?**

14. Rhoddodd 77% o'r ymatebwyr farn ar y cwestiwn hwn.

15. Roedd 47% o'r ymatebwyr yn cytuno bod taliad o £400 yn adlewyrchiad teg o'r gofynion asesu a sefydlu ychwanegol, gyda 6% yn dweud nad oeddent yn teimlo ei fod yn swm teg. Dywedodd 12% eu bod yn cytuno'n rhannol, gyda 12% arall yn teimlo nad oeddent yn gallu ateb heb ragor o wybodaeth ac ni roddodd 2% o'r ymatebwyr unrhyw adborth.

16. Roedd themâu eraill a godwyd yn ymwneud â chyflwyno cydnabod dysgu blaenorol fel agwedd ar y model cyllido. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am sgan sgiliau cadarn, ac asesiad sgiliau hanfodol a gwirio cymwysterau dirprwyol; mapio

cymwysterau'n llawn, a ddylai gynnwys cynllunio hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, unedau dewisol wedi'u seilio ar anghenion cyflogwyr a'r diwydiant, nodi cyrsiau sgiliau gyrfa, cynllunio hyd rhaglenni ac asesiad Anghenion Dysgu Ychwanegol.

17. Roedd rhai o'r farn nad oedd y cynnydd yn adlewyrchu costau amser staff ac adnoddau yn llawn, gyda phryderon ynghylch cysondeb ar draws gwahanol fathau o ddysgwyr neu raglenni.

18. Roedd awgrymiadau i fynd i'r afael â phryderon yn cynnwys monitro'r gweithrediad a chael adborth gan ddarparwyr ar ôl 12 mis, gyda chanllawiau clir ar y gweithgareddau y mae'r taliad yn eu cwmpasu.

**Cwestiwn 4: I ba raddau ydych chi'n cytuno â threfn restrol y costau cyflawni (Medr/2026/17 Model cyllido prentisiaethau: ymgynghoriad) ar gyfer y fframweithiau sector?**

19. At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r cysyniad o drefn restrol costau cyflawni ar gyfer fframweithiau sector. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth ar gael i lunio barn wybodus, gan nad oedd y fethodoleg, gwerthoedd pwysoli, ffynonellau data a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i bennu'r drefn wedi'u rhannu. Mae angen mwy o ddidwylledd ynghylch sut y cyfrifwyd costau. Er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi egwyddor dull cyllido wedi'u bwysoli, roeddent yn pwysleisio bod rhaid i unrhyw fodel fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw a chael ei brofi yn erbyn costau cyflawni go iawn cyn ei roi ar waith.

20. Un pryder allweddol oedd nad yw'r drefn restrol arfaethedig yn adlewyrchu'n gywir realiti cyflwyno prentisiaethau. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod gan brentisiaethau sbardunau costau gwahanol iawn i addysg bellach, gan gynnwys asesu yn y gweithle, ymgysylltu â chyflogwyr, teithio, poblogaethau dysgwyr gwasgaredig, cyflwyno un-i-un, gofynion diogelu ac anghenion cymorth ychwanegol i ddysgwyr.

21. Mynegwyd pryderon ynghylch safle Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, yr oedd llawer o'r ymatebwyr yn credu eu bod wedi'u tanbrisio'n sylweddol, er gwaethaf y costau uchel sy'n gysylltiedig ag asesu yn y gweithle, cydymffurfio â rheoliadau, patrymau sifftiau a chefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Codwyd pryderon tebyg ynghylch rhaglenni Digidol, Peirianneg, Ynni a Gwyddoniaeth, lle mae costau staffio, offer a seilwaith arbenigol yn sylweddol. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i gydnabod cyfraniadau cyflogwyr, gofynion cyflwyno'n ddwyieithog, costau cyflwyno gwledig a gwahaniaethau mewn lefelau rhaglenni a modelau cyflwyno yn well.

**Cwestiwn 5: Caiff yr hyd ei bennu ar sail prentisiaid unigol er mwyn galluogi hyblygrwydd o fewn y system. A fydd yr hyblygrwydd hwn yn arwain at unrhyw effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol?**

22. Roedd 59% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cefnogi'r hyblygrwydd i bennu hyd prentisiaeth unigol. Fodd bynnag, nid oedd 28% o'r ymatebwyr a atebodd y

cwestiwn yn cefnogi cyfnod lleiaf o 12 mis i adlewyrchu cydnabod dysgu blaenorol a phrentisiaethau penodol sy'n dilyn model cyflwyno blwyddyn academaidd.

23. Roedd cefnogaeth i'r egwyddor o ganiatáu i hyd rhaglen brentisiaeth gael ei bennu ar sail unigol, gan gydnabod y gallai hyn greu dull mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr. Roedd rhanddeiliaid o'r farn y byddai teilwra hyd rhaglenni i fan cychwyn, dysgu blaenorol ac amgylchiadau unigol y dysgwr yn gwella cyfleoedd dilyniant, yn bodloni anghenion cyflogwyr yn well ac yn cefnogi llwybrau dysgu mwy personoledig.

24. Roedd ymatebwyr hefyd yn croesawu'r cyfle i ddysgwyr sy'n dangos cymhwysedd yn gyflymach symud ymlaen yn gynt, gan ganiatáu amser ychwanegol i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau neu gyfrifoldebau gofalu, yn ôl yr angen. Roedd llawer o'r farn bod hwn yn symudiad cadarnhaol oddi wrth gyfyngiadau'r model hyd 80% presennol ac yn ffordd o wella hygyrchedd ac ymatebolrwydd ar draws y system brentisiaethau.

25. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y galli'r cyfnod lleiaf o 12 mis leihau hyblygrwydd yn hytrach na'i gynyddu, yn ymarferol. Ar hyn o bryd, caiff sawl rhaglen brentisiaeth, gan gynnwys rhai cymwysterau Lefel 2 mewn Cyfrifyddu, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, eu cyflwyno'n llwyddiannus ymhen 9–10 mis, yn enwedig pan fydd gan ddysgwyr gymwysterau blaenorol, dysgu blaenorol cydnabyddedig neu gefnogaeth gan gyflogwyr sy'n eu galluogi i gyflawni'n gyflymach. Dywedodd rhai y gallai cyfnod lleiaf cyffredinol ohirio dilyniant i ddysgu lefel uwch, datblygiad gyrfa a datblygiad cyflog i ddysgwyr medrus.

26. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai trefniadau cyllido, yn enwedig y taliad cwblhau arfaethedig o 20%, ddylanwadu'n anfwriadol ar benderfyniadau ynghylch hyd rhaglenni, gan greu pwysau i gwtogi neu gyflymu rhaglenni am resymau ariannol yn hytrach nag anghenion dysgwyr. Felly, galwodd rhanddeiliaid am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r polisi'n gweithredu, gan gynnwys trin y rhai sy'n cwblhau'n gynnar, atal rhaglenni, disgwyliadau o ran y cyfnod hwyaf, trefniadau ariannu, prosesau sicrhau ansawdd a chyfrifoldebau cyflogwyr a darparwyr wrth bennu hyd rhaglenni.

27. Y manteision cyffredinol y tynnwyd sylw atynt oedd alinio'n well â mannau cychwyn dysgwyr a'u dysgu blaenorol, gwell ymatebolrwydd i anghenion cyflogwyr, llwybrau dysgu mwy personoledig, mwy o gyfle i symud ymlaen yn gynt, mwy o hygyrchedd i ddysgwyr y mae angen amserlenni estynedig arnynt, a chael gwared ar y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r model hyd 80% presennol.

**<u>Cwestiwn 6:</u> Cynigir y bydd y model cyllido newydd yn symud i daliad deilliannau o 20%, gan roi mwy o ffocws ar gwblhau'n llwyddiannus. Beth yw manteision allweddol symud i fodel deilliannau?**

28. Roedd 60% o'r ymatebwyr yn cydnabod manteision allweddol symud i fodel deilliannau; fodd bynnag, roedd 36% o'r rhain hefyd yn gweld risgiau ac yn awgrymu ystyriaeth bellach er mwyn osgoi creu risg ariannol ormodol, osgoi lleihau hygyrchedd a chydnabod ffactorau peidio â chwblhau sydd y tu hwnt i reolaeth y darparwr. Nid oedd 30% o'r ymatebwyr yn cydnabod budd ac roedd 24% yn gweld

risgiau o ran recriwtio detholus a risgiau i hyfywedd a chynaliadwyedd y rhaglen yn unig. Ni roddodd 9% ateb i'r cwestiwn.

29. Mae cefnogaeth gyffredinol i egwyddor model cyllido wedi'i seilio ar ddeilliannau, gyda llawer yn cydnabod y gallai cysylltu cyllid â deilliannau llwyddiannus gryfhau'r ffocws ar gyflawniad, cwblhad a dilyniant dysgwyr. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y gallai dull tebyg wella atebolrwydd am gyllid cyhoeddus trwy sicrhau bod buddsoddiad yn cyd-fynd yn well â chyflawni cymhwysedd galwedigaethol a deilliannau prentisiaeth llwyddiannus. Tynnwyd sylw hefyd at y potensial i gyllid sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau annog darpariaeth o ansawdd uchel, a chytunwyd bod cryfhau cynorthwyo ac olrhain dysgwyr, gwella ymgysylltu â chyflogwyr a hybu cwblhau'n amserol i gyd yn cael effaith gadarnhaol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai gynyddu hyder cyflogwyr trwy ddangos bod cyllid yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygu sgiliau ystyrlon, cyflawni a symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

30. Fodd bynnag, mynegodd llawer o ymatebwyr bryder bod y lefel hon o 20% yn anghymesur ac yn cyflwyno risgiau ariannol a gweithredol sylweddol. Gwnaethant hefyd dynnu sylw ar y ffaith nad oedd y taliad deilliannau o 20% yn gyson ar draws y sector trydyddol.

31. Nodwyd yn fynych bod llawer o ffactorau sy'n effeithio ar gwblhau prentisiaethau y tu hwnt i reolaeth darparwyr, gan gynnwys newidiadau mewn cyflogaeth, amodau economaidd, capasiti cyflogwyr ac amgylchiadau personol. Roedd pryderon y gallai taliad o 20% fygwth sefydlogrwydd ariannol darparwyr, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai neu sefydliadau arbenigol, gan greu ymddygiad anfwriadol hefyd, fel recriwtio detholus neu lai o gyfleoedd i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Roedd llawer yn cwestiynu a oedd angen cynnydd mor sylweddol, o ystyried y cyfraddau cwblhau cryf yng Nghymru eisoes ar gyfer prentisiaethau.

32. At ei gilydd, mae'r ymatebwyr yn cefnogi egwyddor cyllid sy'n seiliedig ar ddeilliannau, ond yn pwysleisio bod rhaid i unrhyw fodel fod yn gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac adlewyrchu realiti cyflwyno prentisiaethau, gyda mesurau diogelwch ar waith i ddiogelu mynediad i ddysgwyr, tegwch a chynaliadwyedd darparwyr.

## <u>Cwestiwn 7:</u> A yw taliad deilliannau o 20% yn cynnig gwerth canrannol priodol?

33. Roedd 6% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y taliad deilliannau o 20% yn ganran briodol. Fodd bynnag, roedd 66% yn anghytuno a'r prif reswm am hynny oedd risg ariannol. Roedd 9% yn argymell ystyried canlyniadau anfwriadol y lefel o 20%. Ni roddodd 15% ateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 3% o'r farn nad oedd yn bosibl ateb heb ragor o wybodaeth.

34. Roedd consensws llethol nad yw 20% yn lefel briodol o gyllid deilliannau, gyda chefnogaeth gyfyngedig ac yn aml yn amodol yn unig. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cynnydd arfaethedig o 3% i 20% yn anghymesur ac y byddai'n cyflwyno risgiau ariannol a gweithredol sylweddol. Y pryder mwyaf cyffredin oedd yr effaith ariannol ar ddarparwyr. Gydag 20% o'r cyllid yn cael ei atal hyd nes i brentisiaethau cael eu cwblhau, byddai'n ofynnol i ddarparwyr amsugno costau

cyflwyno ymlaen llaw, gan greu pwysau o ran llif arian, cynyddu amlygiad ariannol ac, o bosibl, lleihau capasiti cyflwyno. Ystyriwyd bod y risgiau hyn yn arbennig o sylweddol i ddarparwyr llai, isgontractwyr a'r rhai sy'n cyflwyno rhaglenni hirach.

35. Roedd pryderon y gallai darparwyr ddod yn fwy detholus wrth recriwtio, gan ffafrio dysgwyr â llai o risg a lleihau cyfleoedd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dysgwyr Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill, a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Yn y pen draw, gallai hyn gyfyngu ar fynediad, lleihau cynhwysiant a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n tynnu'n ôl.

36. Pryder arall oedd bod cyfraddau cwblhau'n cael eu dylanwadu gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth darparwyr, gan gynnwys sefydlogrwydd cyflogwyr, amodau'r farchnad lafur ac amgylchiadau dysgwyr unigol fel iechyd neu heriau personol. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn annheg i ddarparwyr ysgwyddo'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r ffactorau allanol hyn.

37. At ei gilydd, er bod cefnogaeth gyffredinol i egwyddor cyllid yn seiliedig ar ddeilliannau, roedd gwrthwynebiad clir a chyson i daliad cwblhau o 20%. Y farn a fynegwyd oedd bod y lefel arfaethedig yn rhy uchel, yn dwyn risg ormodol ac nac oes cyfiawnhad digonol. Roedd y pryderon allweddol yn canolbwyntio ar ansefydlogrwydd ariannol, llai o fynediad a thegwch, newidiadau i ymddygiad darparwyr ac effeithiau posibl ar sectorau sydd â blaenoriaeth.

38. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr ganran cyllid deilliannau is, sef rhwng 5% a 10% fel arfer. Argymhellodd ymatebwyr eraill y gellid cyflwyno unrhyw gynnydd yn raddol, gan gynnwys treialu'r dull cyn ei roi ar waith yn llawn.

**<u>Cwestiwn 8:</u> A oes unrhyw gostau ychwanegol pellach yr hoffech i ni eu hystyried?**

39. Cynigiodd mwyaf yr ymatebwyr safbwynt ar y cwestiwn hwn.

40. Rhoddodd 80% o'r ymatebwyr syniadau ar gostau ychwanegol pellach i Medr eu hystyried. Ni roddodd 8% ateb ac roedd 2% o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnynt i roi ateb.

41. Y brif ystyriaeth y tynnodd 26% o'r ymatebwyr sylw ati oedd costau ychwanegol ar gyfer gwledigrwydd a chymorth ADY. Costau teithio uwch ar gyfer tiwtoriaid, aseswyr a dysgwyr oedd y prif faes pryder yn ymwneud â gwledigrwydd, gyda hyblygrwydd i hawlio cyllid ychwanegol yn ddiweddarach yn y rhaglen a sicrhau bod dysgwyr mewn prentisiaethau'n cael cydraddoldeb â darpariaeth ôl-16 arall o ran costau ADY.

42. Roedd cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog hefyd yn bryder allweddol, gyda 24% o'r ymatebwyr yn manylu ar y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, recriwtio a chadw staff dwyieithog a chyflwyno rhaglenni dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

43. Maes arall y tynnwyd sylw ato oedd yr angen am gostau mwy ystyriol yn ymwneud â gweinyddu a phontio i'r rhaglen newydd, gydag 20% o ddarparwyr yn manylu ar ble mae'r costau hyn yn debygol o ddigwydd. Y meysydd a grybwyllwyd oedd

gweinyddu ar gyfer rhoi'r model newydd ar waith, cynllunio a phroffilio, adrodd a chasglu tystiolaeth, prosesau cysoni newydd, gofynion archwilio a rheoli contractau.

44. Roedd 18% o'r adborth yn ystyried yr angen am fwy o gyllid ar gyfer adnoddau digidol mewnol, fel platfformau dysgu, systemau gwybodaeth rheoli, datblygu cynnwys digidol, darpariaeth dysgu o bell a chyfunol, yn ogystal â chysylltedd a thechnolegau cefnogi dysgwyr.

45. O safbwynt allanol, roedd angen cyllid i gefnogi dysgwyr i fanteisio ar ddyfeisiau a chysylltedd a chymorth cynhwysiant digidol ar gyfer dysgwyr difreintiedig.

**<u>Cwestiwn 9:</u> Nid ydym yn cynnig unrhyw gyllid ychwanegol pan fydd yn rhaid i ddysgwyr ailsefyll cymwysterau. A fydd y dyll hwn yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol?**

46. Roedd 35% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai peidio â chael cyllid ychwanegol ar gyfer ailsefyll arholiadau yn arwain at ganlyniadau anfwriadol amlwg. Y prif feysydd a grybwyllwyd oedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dysgwyr Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, dysgwyr sy'n dychwelyd i addysg ar ôl absenoldeb hir, dysgwyr sy'n wynebu heriau personol, yn y gweithle neu heriau lles, a phrentisiaid o gefndiroedd difreintiedig.

47. Teimlai 30% o'r ymatebwyr y gallai peidio â chael cyllid ychwanegol ar gyfer ailsefyll arholiadau achosi canlyniadau anfwriadol i'r sector ehangach, fel costau ychwanegol i ddarparwyr, mwy o bwysau ar ddysgwyr ac effaith ariannol ar sectorau sydd ag asesiadau allanol drud.

48. Roedd rhai awgrymiadau i liniaru'r canlyniadau anfwriadol yn cynnwys y potensial ar gyfer cronfa gymorth ailsefyll, cyllid eithriadol ar gyfer asesiadau drud, cymorth i ddysgwyr sydd â rhwystrau â nodwyd, trefniadau cymorth ar sail caledi a chynnwys rhagdybiaethau rhesymol ar gyfer gweithgarwch ailsefyll o fewn gwerthoedd unedau.

49. Ni roddodd 15% o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn.

**<u>Cwestiwn 10:</u> Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau cadarnhaol neu negyddol tebygol ein cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

50. Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr (85%) safbwynt ar y cwestiwn hwn.

51. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod hi'n anodd nodi effeithiau cadarnhaol neu negyddol clir ar hyn o bryd oherwydd nad oes digon o fanylion ynghylch sut y byddai trefniadau cyllido, mesur ac adrodd ar y Gymraeg yn gweithredu dan y model newydd. Fodd bynnag, roedd llawer ohonynt yn cydnabod y gallai'r cynigion gynnig cyfle i gryfhau cyflwyno prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy gynyddu'r ffocws ar sgiliau Cymraeg, ehangu adnoddau dysgu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Yn gyffredinol, roedd

cyllid pwrpasol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei groesawu, mewn egwyddor, yn enwedig lle gallai cefnogi twf cyfleoedd dwyieithog a chaniatáu i ddarparwyr ymateb yn fwy effeithiol i anghenion iaith rhanbarthol a dewisiadau dysgwyr.

52. Mynegwyd pryderon ynghylch y risg y byddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn elfen ychwanegol neu ddewisol, yn hytrach nag yn rhan graidd o gyflwyno prentisiaethau. Barn gyffredin oedd bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn dwyn costau ychwanegol, gan gynnwys recriwtio staff Cymraeg eu hiaith, datblygu deunyddiau dysgu dwyieithog a bodloni gofynion cynllunio a chydymffurfio ychwanegol. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y prinder presennol o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn sectorau arbenigol fel iechyd a pheirianneg, ac ynghylch yr ansicrwydd a all godi pe byddai taliadau chwyddo presennol yn cael eu disodli gan gronfeydd cyllid ar wahân.

53. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y dylai mesurau yn y dyfodol gydnabod cynnydd dysgwyr wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg dros gyfnod ac adlewyrchu defnydd ymarferol yn y gweithle, yn hytrach na dim ond cofnodi statws iaith ar ddechrau rhaglen. Nododd rhai hefyd fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn aml yn cael eu dylanwadu gan ddiwylliant cyflogwyr, arferion y gweithle a galw rhanbarthol, sy'n golygu na ellir ystyried mai darparwyr yn unig sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith.

54. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn obeithiol y gallai'r cynigion gefnogi datblygiad y Gymraeg os cânt eu dylunio a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd neges gref y bydd llwyddiant yn dibynnu ar ymgorffori'r Gymraeg yn llawn yn y model cyllido, yn hytrach na'i thrin yn ychwanegiad ar wahân.

**<u>Cwestiwn 11:</u> A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n cael effaith gadarnhaol neu effaith fwy cadarnhaol ar: gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â 13 Rhif Cwestiwn Ymateb thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

55. Ni atebodd 33% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Rhoddodd 63% ohonynt adborth ac roedd yn ymatebion yn gadarnhaol ynghylch pwysigrwydd darpariaeth Gymraeg, yn gyffredinol. Roedd 3% yn teimlo bod rhoi cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg dan gostau ychwanegol yn trin yr iaith yn llai ffafriol.

56. Y consensws cyffredinol oedd y caiff effaith gadarnhaol ei chyflawni dim ond os caiff y Gymraeg ei hymwreiddio ar draws y system yn hytrach chael ei thrin yn ofynion ychwanegol. Mynegodd llawer o randdeiliaid bryder bod rhoi'r Gymraeg o dan "costau ychwanegol" yn atgyfnerthu'r amgyffrediad mae Saesneg yw'r iaith ddiofyn, gan roi darpariaeth cyfrwng Cymraeg dan anfantais, o bosibl. Argymhellodd rhai ohonynt y dylid ymgorffori'r Gymraeg yn y model cyllido craidd, gyda threfniadau cyllido wedi'u dylunio i gydnabod lefelau amrywiol o ddwyieithrwydd a defnydd iaith ymhlith dysgwyr, yn hytrach na dibynnu ar gategorïau iaith sefydlog.

57. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen am gyllid clir, hygyrch a chynaliadwy sy'n adlewyrchu'n llawn gostau cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan dynnu sylw at y treuliau ychwanegol sy'n gysylltiedig â recriwtio staff Cymraeg eu hiaith, datblygu adnoddau dysgu dwyieithog, cynnal asesiadau

dwyieithog a chefnogi datblygu'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd galwadau hefyd am gymorth wedi'i dargedu i ddatblygu terminoleg Gymraeg, adnoddau dwyieithog a threfniadau mentora cyflogwyr ar gyfer sectorau penodol sy'n helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ymarferol.

58. Tynnodd ymatebwyr sylw ar brinder tiwtoriaid, aseswyr ac ymarferwyr arbenigol Cymraeg eu hiaith ar draws sawl sector ac roeddent yn argymell buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu, hyfforddiant Cymraeg a chymhellion i ddenu a chadw staff dwyieithog. Ochr yn ochr â hyn, roedd rhanddeiliaid yn galw am welliannau i'r ffordd y caiff deilliannau Cymraeg eu mesur. Teimlai llawer ohonynt fod y dulliau presennol yn canolbwyntio gormod ar gyflwyno rhaglenni yn ffurfiol ac nad ydynt yn cofnodi'n ddigonol y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, sgiliau cyfathrebu llafar na chynnydd dysgwyr dros gyfnod. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi mesurau sy'n cydnabod datblygiad iaith dysgwyr ar hyd eu taith prentisiaeth ac yn adlewyrchu'n well y defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn lleoliadau cyflogaeth.

59. Nododd llawer ohonynt fod diwylliant y gweithle yn dylanwadu'n fawr ar b'un a yw prentisiaid yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cyflwyno cymhellion i gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, yn ogystal â darparu rhaglenni mentora dwyieithog a rhaglenni cefnogi iaith yn y gweithle. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am fwy o gymwysterau, deunyddiau dysgu a chefnogaeth gan gyrff dyfarnu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob sector a lefel, gan helpu i sicrhau y gall dysgwyr barhau â'u dilyniant addysgol a gyrfaol trwy gyfrwng y Gymraeg.

60. Y neges glir gan ymatebwyr oedd y dylid trin y Gymraeg yn rhan annatod o gyflwyno prentisiaethau, yn hytrach nag yn elfen ddewisol neu atodol.

**<u>Cwestiwn 12:</u> A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn sicrhau na fyddai ein cynigion yn cael effeithiau andwyol, neu y byddent yn lleihau'r effeithiau andwyol ar: gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

61. Neges gyson oedd y dylai darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gael ei hymgorffori yn y model cyllido craidd ar gyfer prentisiaethau, yn hytrach na'i thrin yn elfen ychwanegol neu ddewisol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen am drefniadau cyllido clir a sefydlog sy'n cydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'n ddwyieithog, gan gynnwys cyfieithu, datblygu adnoddau a deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg. Rhybuddiodd llawer ohonynt y gallai gofynion cynyddol heb fuddsoddiad cyfatebol leihau gallu darparwyr a chyfyngu ar ddewis i ddysgwyr.

62. Nodwyd capasiti'r gweithlu yn un o'r rhwystrau'r mwyaf rhag ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan dynnu sylw at y prinder tiwtoriaid, aseswyr a staff sicrhau ansawdd Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn sectorau arbenigol a thechnegol. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd buddsoddi mewn datblygu staff, hyfforddiant Cymraeg a mentrau recriwtio i ddatblygu gweithlu dwyieithog cynaliadwy. Roedd cefnogaeth gref hefyd i gydnabod y Gymraeg fel sgil werthfawr yn y gweithle, gydag awgrymiadau y dylid ystyried dwyieithrwydd yn gymhwysedd

galwedigaethol ac yn fwy cysylltiedig â deilliannau prentisiaethau a chyflogadwyedd.

63. Eto, thema a godwyd dro ar ôl tro yma oedd argaeledd cymwysterau ac adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg. Crybwyllodd ymatebwyr oedi wrth lunio manylebau dwyieithog, cefnogaeth gyfyngedig gan rai cyrff dyfarnu a gallu anghyson i fanteisio ar ddeunyddiau Cymraeg. Roedd llawer ohonynt yn teimlo y gall yr heriau hyn arwain at y Saesneg yn dod yn opsiwn diofyn.

64. Eto, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â chyflogwyr a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd awgrymiadau'n cynnwys darparu canllawiau ac offer ymarferol i gyflogwyr i gefnogi amgylcheddau gwaith dwyieithog, annog defnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu yn y gweithle a helpu dysgwyr i gymhwyso sgiliau Cymraeg trwy gydol eu cyflogaeth. Pwysleisiodd sawl ymatebydd hefyd bwysigrwydd cynnal dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr, gan sicrhau y gallant fanteisio ar gefnogaeth, hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ni waeth ble maent yn byw nac ym mha sector y maent yn gweithio.

65. Yn olaf, galwodd yr ymatebwyr am fonitro cryfach a chydlynu strategol i gefnogi twf y Gymraeg ar draws y system brentisiaethau. Roedd hyn yn cynnwys olrhain cyfranogiad cyfrwng Cymraeg, ansawdd y ddarpariaeth, defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chyfleoedd am ddilyniant trwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnodd llawer ohonynt sylw hefyd at yr angen i gyd-fynd yn agosach ag uchelgeisiau iaith ehangach Llywodraeth Cymru, gwell ymgysylltiad â chyrff dyfarnu a chydweithio parhaus ar draws y sector. At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r uchelgais i gryfhau deilliannau Cymraeg, ond yn pwysleisio y bydd llwyddiant yn dibynnu at ddull cynlluniedig, cydweithredol ac wedi'i gyllido'n dda sy'n ymwreiddio'r Gymraeg ar draws y system brentisiaethau.

**<u>Cwestiwn 13:</u> A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?**

66. Roedd 44% o'r ymatebwyr yn cytuno y gallai'r cynigion gefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, o bosibl. Roedd 15% yn teimlo nad oedd yn cefnogi'r Ddeddf tra na roddodd 41% unrhyw ateb.

67. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod prentisiaethau'n cyfrannu'n fawr at yr economi gan eu bod yn cefnogi datblygu sgiliau'r gweithlu a chynhyrchiant, yn cefnogi cyflogaeth gynaliadwy, yn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau wrth helpu cyflogwyr i fodloni anghenion y gweithlu yn y dyfodol mewn sectorau allweddol, fel iechyd, gofal cymdeithasol, peirianneg ac adeiladu.

68. Roedd yr adborth mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r cynnig yn cefnogi mwy o gydraddoldeb trwy ddarparu llwybrau galwedigaethol i gyflogaeth a chefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

69. Eto, codwyd y dull cyllido sy'n seiliedig ar ddeilliannau, gyda llawer o'r ymatebwyr yn nodi y gallai hyn atal recriwtio dysgwyr sy'n anoddach eu cyrraedd a lleihau cyfleoedd i ddysgwyr ag ADY neu anghenion ychwanegol.

70. Roedd y mwyafrif yn cytuno bod gan y model cyllido newydd y potensial i wneud cyfraniad cadarnhaol at nifer o’r nodau llesiant, yn enwedig Cymru Lewyrchus, Cymru Fwy Cyfartal, Cymru Iachach a Chymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu. Caiff ei gydnabod yn eang bod prentisiaethau’n chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu sgiliau, cefnogi cyflogaeth, mynd i’r afael â phrinder yn y gweithlu a helpu cyflogwyr i fodloni anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd prentisiaethau wrth gefnogi twf economaidd, symudedd cymdeithasol a chynaliadwyedd y gweithlu ar draws sectorau allweddol fel iechyd, gofal cymdeithasol, peirianneg ac adeiladu.

71. Roedd llawer o’r ymatebwyr hefyd yn teimlo y gall prentisiaethau helpu i greu Cymru fwy cyfartal trwy ddarparu llwybrau amgen i gyflogaeth a dysgu, yn enwedig i bobl o gefndiroedd difreintiedig a’r rhai nad ydynt yn dilyn llwybrau academaidd traddodiadol. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr ymatebwyr mai dim ond os bydd y model cyllido’n parhau i fod yn gynhwysol ac yn parhau i gefnogi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt y caiff y manteision hyn eu gwireddu.

72. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y dylid mesur llwyddiant prentisiaethau trwy ystod ehangach o ddeilliannau, yn hytrach nag ennill cymwysterau yn unig. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cydnabod cyflogaeth gynaledig, dilyniant gyrfa, twf cyflog, datblygu sgiliau, hyder dysgwyr a symud ymlaen i lefelau dysgu uwch. Roedd llawer yn teimlo bod y deilliannau hyn yn adlewyrchu’n well fanteision hirdymor prentisiaethau i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau.

73. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at gyfraniad prentisiaethau i gymunedau lleol ac economïau rhanbarthol, gan helpu i gadw talent yng Nghymru, creu cyfleoedd yn nes at adref, cefnogi ardaloedd gwledig a difreintiedig a chryfhau cydnerthedd cymunedol.

74. Roedd llawer o’r ymatebwyr yn cydnabod y cyfraniad y gall prentisiaethau ei wneud at hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a mwy o ddefnydd o’r Gymraeg yn y gweithle. Fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio bod y manteision hyn yn dibynnu ar gyllid a chefnogaeth ddigonol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd llawer yn cytuno y bydd llwyddiant yn dibynnu at gynnal mynediad cynhwysol, cydnabod ystod eang o ddeilliannau dysgwyr a sicrhau bod trefniadau cyllido yn cefnogi blaenoriaethau hirdymor y gweithlu, yr economi a’r gymdeithas, yn hytrach na chanolbwyntio ar fesurau cyrhaeddiad yn unig.

**Cwestiwn 14: A fydd y cynigion yn cyfrannu at: Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu’n unol â hi?**

**Hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu?**

**Meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu?**

**Lleihau’r anghydraddoldebau o ran deilliannau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**

75. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu symud tuag at ddull mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a allai fodloni anghenion unigol yn well, gwella cyfleoedd dilyniant a chefnogi ystod ehangach o ddysgwyr i ddod o hyd i gyflogaeth. Roedd barn gadarnhaol hefyd am y cyllid ychwanegol arfaethedig ar gyfer dysgwyr ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai y mae angen cymorth lles neu fentora arnynt. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod prentisiaethau'n chwarae rôl bwysig wrth ehangu cyfranogiad, gwella symudedd cymdeithasol a chreu llwybrau i gyflogaeth ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

76. Fodd bynnag, unwaith eto, roedd y pryder mwyaf sylweddol yn ymwneud â'r elfen gyllid arfaethedig o 20% yn seiliedig ar ddeilliannau. Rhybuddiodd llawer o ymatebwyr y gallai cysylltu cyfran fawr o gyllid â chwblhau annog arferion recriwtio sy'n osgoi risg, gyda darparwyr o bosibl yn rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr sy'n fwyaf tebygol o gwblhau'n llwyddiannus. Gallai hyn leihau cyfleoedd i ddysgwyr ag ADY, anableddau, anghenion Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, cyrhaeddiad blaenorol is neu rwystrau eraill rhag cyflawni. Roedd pryderon y gallai hyn danseilio ymdrechion i ehangu cyfranogiad ac y gallai gael effaith anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a grwpiau gwarchodedig.

77. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y risg y gellir ystyried bod dysgwyr y mae angen amser, cymorth neu ymyrraeth ychwanegol arnynt yn dwyn mwy o risg ariannol dan y model arfaethedig. Nododd sawl ymatebydd fod anfantais economaidd-gymdeithasol yn aml yn gysylltiedig â chyfraddau cwblhau is ac roeddent yn rhybuddio y gallai darparwyr sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig neu sy'n cefnogi grwpiau dysgwyr mwy cymhleth fod dan anfantais annheg. Nododd rhai ymatebwyr hefyd risg bosibl o wahaniaethu anuniongyrchol pe byddai'r trefniadau cyllido yn creu rhwystrau anfwriadol i ddysgwyr anabl, dysgwyr o leiafrifoedd ethnig neu'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

**<u>Cwestiwn 15:</u> A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei bwydo i mewn i'r ymgynghoriad?**

78. Rhoddodd 76% o'r ymatebwyr wybodaeth ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am fwy o fanylion ac ailadrodd pryderon ynghylch taliadau deilliannau o 20%, cymhlethdod y model, yr angen am dryloywder a'r cyfnod gofynnol lleiaf o 12 mis. Codwyd pryderon hefyd ynghylch trefniadau is-gontractio, a gofynnwyd am fwy o wybodaeth pe byddai trefniadau cynnal deuol yn digwydd.

79. Roedd cefnogaeth i gydnabod dysgu blaenorol, mentora a bod y model yn canolbwyntio mwy ar y dysgwr.

80. Croesawyd y cyfle i ymatebwyr gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn ac roedd cefnogaeth eang i'r uchelgais i greu model cyllido mwy tryloyw, hyblyg ac sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr, sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru. Yr elfennau cadarnhaol a amlygwyd oedd mwy o gyllid ar gyfer asesu ac ymsefydlu, cael gwared ar y rheol 80% o hyd, mwy o hyblygrwydd o ran hyd rhaglenni, a symud tuag at strwythur cyllido symlach. Roedd pob un ohonynt yn cytuno bod gan y newidiadau hyn y potensial i wella ymatebolrwydd a chefnogi teithiau prentisiaeth mwy personoledig.

81. Fodd bynnag, roedd pryderon penodol bod y cynnydd arfaethedig mewn cyllid sy'n seiliedig ar ddeilliannau o 3% o 20% yn cyflwyno risg ariannol sylweddol i ddarparwyr, er gwaethaf y ffaith bod llawer o ffactorau sy'n effeithio ar gwblhau y tu hwnt i'w rheolaeth. Rhybuddiodd ymatebwyr y gallai hyn fod â chanlyniadau anfwriadol o ran mynediad i ddysgwyr, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cyflawni, ac maent wedi galw am ddull fesul cam, sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda phrofion peilot ac ymgysylltiad parhaus â'r sector.

82. Thema gyson trwy gydol yr adborth oedd yr angen am fwy o eglurder ynghylch sut byddai'r model cyllido newydd yn gweithredu'n ymarferol, gydag ansicrwydd ynghylch cyfrifo gwerthoedd cyllido, trin dysgwyr sy'n cario drosodd, cwblhawyr cynnar, ataliadau dros dro a newidiadau i raglenni. Heb y wybodaeth hon, roedd darparwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu asesu hyfywedd ariannol ac effaith weithredol y cynigion. Codwyd pryderon hefyd ynghylch pwysau llif arian, cysoni cyllid, trefniadau proffilio a'r potensial ar gyfer ansefydlogrwydd ariannol dan y model newydd.

83. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd rheoli'r gweithredu a'r cyfnod pontio yn ofalus. Mae gwersi o ddiwygiadau blaenorol wedi dangos y risgiau sy'n gysylltiedig â systemau sy'n cael eu cynnal yn ddeuol, mwy o weinyddu ac ansefydlogrwydd systemau. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am seilwaith digidol cadarn, cynlluniau gweithredu clir, offerynnau rhagweld pwrpasol a chymorth digonol i ddarparwyr yn ystod y cyfnod pontio. Mae angen eglurder hefyd ynghylch monitro perfformiad, goddefiannau ariannu a mesurau diogelwch i ddysgwyr sydd eisoes ar raglenni.

84. Nodwyd bod diogelu tegwch, cynhwysiant a chynaliadwyedd y sector yn flaenoriaeth allweddol. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod rhaid i'r model barhau i gefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sydd â chyrhaeddiad blaenorol is. Dylai cyllid adlewyrchu costau cyflwyno, gofynion sectorau penodol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn briodol, wrth barhau'n ddigon hyblyg i ymateb i anghenion newidiol y gweithlu a chydnabod dysgu blaenorol. Galwodd llawer am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn, ynghyd â mesurau diogelu cryfach i atal canlyniadau anfwriadol.

## Casgliad

85. At ei gilydd, er bod cefnogaeth i'r uchelgais y tu ôl i'r cynigion, mae ymatebwyr o'r farn bod angen mireinio'r taliad cyflawni o 20% ymhellach a bod angen mwy o dryloywder a phrofi er mwyn sicrhau bod y model cyllido newydd yn cryfhau'r rhaglen brentisiaethau ac yn parhau i gyflawni deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru.